**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Hydref 2015

Annwyl Christine,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2015 ynghylch y gwerthusiad a wnaed yn sgil cynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol wrth asesu effaith y gyllideb ddrafft ar gydraddoldeb.

Fel Llywodraeth rydym wedi ymrwymo i asesu effaith ein penderfyniadau gwariant. Byddwn yn datblygu a gwella ein dull yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn. Ein nod yw gwella manylder y dadansoddiad a ddarperir ym mhob Asesiad Effaith Integredig Strategol y byddwn yn ei gyhoeddi.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn rydym wedi gofyn i Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru edrych ar sut y gallai Llywodraeth Cymru wella ei defnydd o asesiadau effaith. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar yr arferion cyfredol yng Nghymru, ac yn ystyried arferion gorau o bedwar ban byd i roi cyngor ar sut y gallai'r broses asesu effaith gael ei gwella.

Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn ddechrau'r flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried ei ganlyniadau ar gyfer llunio ein dull asesu effaith yn y dyfodol.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.